GIG CYMRU NHS WALES
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Cynllun Gweithlu Fferylliaeth Strategol

## Cylchlythyr Hydref 2023



## Cynnwys


Cyflwyniad ........ 1
Y daith hyd yn hyn........ 2
Adolygiad o Wasanaethau Clinigol........ 3
Cynnydd hyd yma........ 4
Blaenoriaethau a'r Camau Nesaf........ 7




# Cyflwyniad

Croeso i'n cylchlythyr cynllun gweithlu Fferylliaeth cyntaf. Mae'r cylchlythyr hwn yn dechrau'r cyfathrebu ac ymgysylltu parhaus â'n holl randdeiliaid a phartneriaid wrth i ni symud ymlaen i roi ein cynllun gweithlu fferyllol ar waith.

Rydym wedi bod yn hynod ddiolchgar am yr ymgysylltiad cadarnhaol hyd yma gan bawb, ond yn awr mae angen i ni i gyd ddod at ein gilydd er mwyn i'r cynllun dod yn fyw ar gyfer ein holl dimau fferylliaeth gweithgar.

Rydym hefyd am glywed gan bob un ohonoch am sut yr ydych yn bwrw ymlaen â rhai o'r camau gweithredu yn y cynllun.

**Os hoffech gyfrannu neu rannu'r hyn yr ydych wedi bod yn ei wneud yn unol â'r cynllun gweithlu fferylliaeth strategol, e-bostiwch:**
**heiw.pharmacyworkforce@wales.nhs.uk**

Gallwch ddarllen y Cynllun Gweithlu Fferylliaeth Strategol gyflawn yma:
aagic.gig.cymru/files/strategic-workforce-plan

Gallwch edrych ar grynodeb o'r 31 gweithred yma:
aagic.gig.cymru/files/pharmacy-aims-cymru

Dilynwch ein datblygiad drwy wefan AaGIC yma:
aagic.gig.cymru/gweithlu/cynllun-gweithlu-fferylliaeth-strategol

Neu ar y cyfryngau cymdeithasol:

- facebook.com/AAGIC.GIG
- twitter.com/AaGIC_GIG
- linkedin.com/company/nhs-heiw

## Yr Athro Margaret Allan, BPharm (Anrh) FRPS
Deon Fferyllfa



# Y daith hyd yn hyn

Mae'r gweithlu fferylliaeth yn hollbwysig i GIG Cymru. Mae fferyllwyr, technegwyr fferyllol a chynorthwywyr fferyllol yn sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar eu meddyginiaethau a'u defnyddio'n ddiogel.

Cydnabuwyd y Cynllun Gweithlu Fferylliaeth Strategol fel blaenoriaeth frys i AaGIC yn 2022 i

- baratoi ar gyfer newidiadau rheoliadol mewn hyfforddiant fferyllwyr,
- gwella lles y gweithlu ym mhob sector fferylliaeth,
- cynnal mynediad y cyhoedd i wasanaethau fferyllol,
- ysgogi trawsnewid gwasanaethau, a
- gwella cynllunio gweithlu fferyllol

Gan mai rhoi meddyginiaethau yw'r gwasanaeth mwyaf cyffredin y ymarferwyr clinigol yn darparu, mae cynllun y gweithlu fferylliaeth yn berthnasol i'r rhan fwyaf o bobl sy'n gweithio/neu'n defnyddio gwasanaethau GIG Cymru, Cymerodd 12 mis i ddatblygu'r cynllun, mewn partneriaeth â dros 900 o bobl.

Yn ein digwyddiad lansio, ar 30 Mehefin 2023 yn Stadiwm Dinas Caerdydd, cyhoeddwyd y 31 o Gamau Gweithredu y nododd rhanddeiliaid y mae'n rhaid eu rhoi ar waith dros y 2 flynedd nesaf. Fe wnaethom groesawu 114 o gyfranogwyr o 43 o sefydliadau ledled Cymru, gyda 58 ychwanegol ar-lein.

Yr uchelgeisiau yn y cynllun yw gwelliant sylweddol yn y modd y caiff y gweithlu fferyllol ei ddatblygu, ei werthfawrogi a'i gefnogi i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth glinigol. Mae hyn yn rhan annatod o dimau aml-broffesiynol, lle bynnag y mae pobl yn defnyddio meddyginiaethau.

Rydym eisoes wedi derbyn 61 o addewidion ysgrifenedig y bydd pobl yn parhau i weithio gyda ni wrth roi'r 31 Cam Gweithredu ar waith. Manteision gweithredu'r cynllun yw diogelu gofal o ansawdd uchel i bobl sy'n cymryd meddyginiaethau, darparu gweithlu fferylliaeth cynaliadwy a sicrhau defnydd darbodus o feddyginiaethau ar draws yr holl sefydliadau a darparwyr gwasanaethau GIG Cymru.

Delwedd: Digwyddiad Lansio Cynllun Gweithlu Fferylliaeth Strategol, Stadiwm Dinas Caerdydd



# Adolygiad o Wasanaethau Clinigol



Yn 2022, comisiynodd Llywodraeth Cymru gorff arwain proffesiynol fferyllol y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS), i gynnal adolygiad annibynnol o ddarpariaeth gwasanaethau fferylliaeth glinigol ysbytai yng Nghymru.

Diben yr adolygiad oedd ystyried y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferylliaeth glinigol mewn ysbytai a sut yr oeddent yn cyd-fynd â blaenoriaethau ac anghenion newidiol GIG Cymru.

Cyhoeddodd RPS Cymru, 'Cynnydd rhagnodi: 'Trawsnewid fferylliaeth glinigol ysbytai yng Nghymru ar gyfer gofal gwell i gleifion,' a rhyddhawyd 21 Medi 2023, gyfanswm o 36 o argymhellion oedd yn cwmpasu meysydd megis gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, rhagnodi, defnyddio technoleg a datblygu'r gweithlu.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r adolygiad, a gyhoeddwyd hefyd ar 21 Medi 2023, gan ddweud ei bod wedi'i ymrwymo i 61 o "gamau strategol" a fydd yn darparu glasbrint ar gyfer trawsnewid gwasanaethau fferylliaeth glinigol mewn ysbytai i gyflawni'r uchelgeisiau a nodir yng ngweledigaeth hirdymor yr RPS ar gyfer fferylliaeth yng Nghymru.

Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Fferylliaeth Glinigol yn Ysbytai'r GIG yng Nghymru - Llywodraeth Cymru

Ers cyhoeddi ymateb Llywodraeth Cymru, mae AaGIC wedi bod yn gweithio drwy'r 61 o gamau gweithredu strategol i sicrhau bod unrhyw orgyffwrdd â Cynllun Gweithlu Fferylliaeth y Strategol wedi'u nodi a'u bod yn cael eu hystyried yn ystod gweithgareddau blaenoriaethu a chynllunio.

Bydd y dull gweithredu cynhwysfawr hwn yn sicrhau, lle bo gorgyffwrdd, bod nodau, canlyniadau ac adnoddau yn cael eu halinio er mwyn osgoi ailadrodd gweithgaredd.

Rydym wedi defnyddio'r ymarfer hwn i helpu i flaenoriaethu ein gweithgareddau dros y 3 mis nesaf a chaiff y rhain eu nodi yn ein "Blaenoriaethau Chwarter 3 2023/2024" isod.

Delwedd: Emma Brierly a Dhimant Patel, dau wyneb o 'HyfforddiGweithioByw' AaGIC, Ymgyrch ar gyfer Gofal Sylfaenol a Fferylliaeth Gymunedol

# Cynnydd hyd yma

## Cylchdro Gweithredu Cynllun Gweithlu Fferylliaeth Strategol

Dichonoldeb → Cynllunio → Cam Gweithredu → Mynd yn Fyw → Wedi Cau

## Y Saith Thema Strategol

| | | |
|---|---|---|
| **1** Gweithlu sy'n Ymgysylltu, yn Llawn Cymhelliant ac yn Iach | **2** Denu a Recriwtio | **3** Modelau Gweithlu Di-dor |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **4** Adeiladu Gweithlu sy'n Barod yn Ddigidol | **5** Addysg a Dysgu Rhagorol | **6** Arweinyddiaeth ac Olyniaeth | **7** Cyflenwad a Siâp y Gweithlu |

**Thema 3**

**Cyf 12**

Cytuno ar Strategaeth Fferyllwyr Ymgynghorol Cymru a'i gweithredu.

**Statws**

Dichonoldeb

**Diweddariad:**

Mae AaGIC yn datblygu dogfen strategol lefel uchel gyda'n rhanddeiliaid i'w defnyddio gan Weithredwyr, Cyfarwyddwyr ac uwch arweinwyr gwasanaethau mewn Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yng Nghymru.

Bydd yn disgrifio'r defnydd rolau fferyllwyr ymgynghorol yn y tîm amlddisgyblaethol a bydd yn cynnwys rhai o'r cwestiynau allweddol am y rolau:-

Beth yw rôl y fferyllydd ymgynghorol?

Beth yw eu cyfraniad i'r tîm aml-broffesiynol?

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng  fferyllydd ymgynghorol a rolau fferyllol eraill fel prif fferyllydd ac uwch fferyllydd?

Sut mae'r rolau'n cyd-fynd â llwybrau gyrfa fferyllwyr?

Sut ydyn ni'n cynllunio olyniaeth ar gyfer rolau?

Sut mae rolau yn cyd-fynd â fframwaith Lefel Uwch,  a lefel Ymgynghori AaGIC?

Mae'r gwaith yn ceisio gwella'r ddealltwriaeth o'r angen yn y maes busnes, a deall y gwerth ychwanegol y mae'r rolau yma yn cyfrannu, sy'n berthnasol o ystyried heriau penodol y GIG o ran: -

- cyllid, (meddyginiaethau yw gwariant uchaf y GIG ar ôl staffio)
- y boblogaeth gynyddol sy'n heneiddio sy'n defnyddio mwy o feddyginiaethau cymhleth, personol,
- gweithredu technoleg e-feddygaeth,
- prinder gweithlu fferyllol.

Mae swyddi fferyllwyr ymgynghorol yn aml yn deillio o arloesi mewn cyfnod heriol. Daeth 38% o'r rolau presennol o arian wedi'i ail-bwrpasu o swyddi gwag meddygol, a chafodd 23% eu hariannu o fuddsoddiadau cydweithredol rhwng sefydliadau partner neu rwydweithiau mewn ymateb i asesiad o anghenion gwasanaeth penodol.

Bydd y Strategaeth yn helpu i alluogi sefydliadau a rhwydweithiau i gael sgyrsiau gwybodus ynghylch 'faint?' 'ble?' a 'sut?'

**Gallwch gyrchu ein sleidiau ymgysylltu yma.**

**Thema 4**

**Cyf 13**

Comisiynu prosiect fferylliaeth ddigidol i gwblhau sganio'r gorwel o ddatblygiadau technolegol a fydd yn effeithio ar rolau gweithlu fferyllol

**Statws**

Cynllunio

**Diweddariad:**

Cwblhaodd AaGIC brosiect 6 mis ym mis Awst i gynnal sganio'r gorwel o ddatblygiadau technolegol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'r goblygiadau y gallent eu cael ar hyfforddiant Fferylliaeth a'r gweithlu dros y 5-10 mlynedd nesaf. Casglwyd enghreifftiau ar draws Addysg, Gwybodaeth, Biotechnoleg, Roboteg, Deallusrwydd Artiffisial a Rhithwir a Realiti Estynedig. Mae prosiect dilynol yn cael ei ddatblygu i ystyried yr effaith ac addysg a hyfforddiant.

**Thema 5**

**Cyf 19**

Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynigion ar gyfer cynnwys genomeg a chynhyrchion meddyginiaethol therapi uwch o fewn addysg a hyfforddiant y gweithlu fferyllol

**Statws**

Dichonoldeb

**Diweddariad:**

Mae AaGIC wedi sefydlu grŵp o arbenigwyr genomeg i ddatblygu Cynllun Gweithlu Strategol ar gyfer Genomeg.

Mae'r tîm yn cynnwys Arweinydd Clinigol – Ffarmacogenomeg, a fydd yn cynhyrchu cynllun penodol ar gyfer datblygu gwybodaeth a sgiliau genomig y gweithlu fferyllol.

Byddant yn gweithio'n agos gyda fferylliaeth wrth iddynt ddatblygu mewnbwn fferylliaeth i'r cynllun gweithlu Genomeg cyffredinol.

I unrhyw un sy'n dymuno dechrau datblygu eu sgiliau genomeg, mae AaGIC eisoes yn ariannu sawl modiwl Genomeg. Efallai y bydd y modiwl ffarmacogenomeg a gynigir gan Brifysgol Bangor (PB) o ddiddordeb penodol i chi.

**Mae gan y modiwl ei dudalen we ei hun yn yr adran Cyrsiau Byr ar Wefan PB:**

**Saesneg:** https://www.bangor.ac.uk/courses/other-courses/pharmacogenomics-and-stratified-healthcare

**Cymraeg:** https://www.bangor.ac.uk/cy/courses/other-courses/ffarmacogenomeg-a-gofal-iechyd-haenedig



**Thema 7**

**Cyf 27**

Gwella'r modd o gyrchu gwybodaeth am y gweithlu a sicrhau gwelededd data a deilliannau fferylliaeth yng Nghronfa Addysg i Gyflogaeth AaGIC.

**Statws**

Cam Gweithredu

**Diweddariad:**

Mae AaGIC wedi sicrhau adnodd fferylliaeth pwrpasol ym maes Dadansoddi Data. Mae gennym welededd a gallu da i gwestiynu tueddiadau gweithlu fferylliaeth y Cyngor Fferylliaeth Cyffredinol (GPhC), y GIG a phractisau cyffredinol. Mae gwaith i oresgyn pryderon, a chasglu data gweithlu fferylliaeth gymunedol yn hanfodol i gwblhau'r darlun ar gyfer cynllunio a hyfforddiant.

Mae ein sgiliau newydd wedi'u defnyddio'n ymarferol i lywio'r adolygiad annibynnol diweddar o wasanaethau fferylliaeth ysbytai acíwt, 'Cynnydd Rhagnodi: 'Trawsnewid Fferylliaeth Ysbytai Clinigol Cymru ar gyfer Gwell Gofal Cleifion, Adroddiad Annibynnol a Gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.' Ar gael yma:

www.rpharms.com/hospital-review-wales

Yn fewnol, mae prototeip o Ddangosfwrdd Gweithlu Fferylliaeth yn cael ei lunio.

Yn absenoldeb un ffynhonnell ddata ar gyfer y gweithlu fferylliaeth aml-sector, rydym wedi cwblhau arolwg swyddi gweigion fferyllwyr ar gyfer Awst/Medi 2023 gan adrodd 192 o swyddi fferyllwyr gwag.

Rydym wedi bod yn olrhain perfformiad ein rhaglenni hyfforddi drwy gofnodi niferoedd sydd wedi 'cwblhau' a 'gadael' ac yn bwysicach, faint o hyfforddeion rydym ni, yn 'Cyflenwi i Gymru' ac sy'n cael eu cadw gan gyflogwyr sy'n darparu gwasanaethau'r GIG.

**Bostiwch ni am ragor o wybodaeth heiw.pharmacyworkforce@wales.nhs.uk**

**Thema 7**

**Cyf 32**

Adrodd ar ymarferoldeb ystod ehangach o opsiynau 'cyflenwi' ar gyfer y gweithlu fferyllol cofrestredig.

**Statws**

Dichonoldeb

**Diweddariad:**

Mae asesiadau dichonoldeb cychwynnol ar y gweill ac maent wedi nodi'r gweithgareddau canlynol i'w hystyried ymhellach:

Rhaglen 'Mynediad i' – darparu mynediad i gymwysterau cyfwerth â TGAU drwy'r gweithle i'r rhai nad ydynt yn gallu bodloni'r meini prawf mynediad ar gyfer cwrs Technegydd Fferylliaeth Cyn-gofrestru AaGIC. I gael rhagor o wybodaeth e-bostiwch HEIW.PT@wales.nhs.uk

Llwybrau di-brentisiaeth i Dechnegwyr Fferylliaeth - Mae yno weithgaredd AaGIC ehangach ar waith ar hyn o bryd yn ymwneud â 'Rhaglenni Dychwelyd i Ymarfer' ar gyfer cofrestreion fferylliaeth, Prentisiaethau Gradd, Recriwtio Rhyngwladol a Cofrestreion fferylliaeth sydd yn ffoaduriaid neu wedi eu dadleoli.

Ehangu Mynediad – cyllid AaGIC ar gyfer prosiect a arweiniwyd gan Ysgol Fferylliaeth a Gwyddor Fferyllol Caerdydd, 'O'r Fainc i Ochr y Gwely' i annog ceisiadau i astudio gradd fferylliaeth gan y rheini mewn cymunedau gwledig a Chymraeg eu hiaith.

**Os oes unrhyw ran o'r gwaith hwn o ddiddordeb i chi, yna gallwch anfon e-bost i heiw.pharmacyworkforce@wales.nhs.uk**

# Blaenoriaethau a'r Camau Nesaf

## Cylchdro Gweithredu Cynllun Gweithlu Fferylliaeth Strategol

Dichonoldeb → Cynllunio → Cam Gweithredu → Mynd yn Fyw → Wedi Cau

## Y Saith Thema Strategol

| | | |
|---|---|---|
| **1** Gweithlu sy'n Ymgysylltu, yn Llawn Cymhelliant ac yn Iach | **2** Denu a Recriwtio | **3** Modelau Gweithlu Di-dor |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **4** Adeiladu Gweithlu sy'n Barod yn Ddigidol | **5** Addysg a Dysgu Rhagorol | **6** Arweinyddiaeth ac Olyniaeth | **7** Cyflenwad a Siâp y Gweithlu |

### Thema 2

**Cyf 7**

Datblygu atebion pwrpasol i wella atyniad a recriwtio i rolau fferylliaeth mewn ardaloedd lle mae gwledigrwydd yn her benodol

**Statws**

Dichonoldeb

**Diweddariad:**

Dechreuodd trafodaethau cychwynnol ym mis Hydref 2023 ar y Cam Gweithredu cymhleth hwn.

Cefnogir y Cam Gweithredu gan ymchwil a gwblhawyd yn gynharach eleni gan dîm Hyfforddiant Sylfaen AaGIC i adolygu heriau a nodwyd gyda lleoliadau Fferyllwyr Sylfaen mewn rhai lleoliadau.

Bydd gweithgareddau cwmpasu a dadansoddi bylchau gyda grwpiau rhanddeiliaid allanol yn dechrau ym mis Rhagfyr i ehangu'r ymchwil ledled Cymru i sicrhau bod dwysedd poblogaeth a chyfraddau swyddi gwag presennol yn cael eu cynnwys.

Mae nifer o atebion/gweithgareddau posibl wedi'u casglu a bydd y rhain yn cael eu hadolygu gyda'r grŵp rhanddeiliaid ehangach yn ystod yr ymgysylltu hwn.

### Thema 4

**Cyf 14**

Datblygu sgiliau, cymwyseddau ac ymddygiadau digidol generig yn gyson ymhlith y gweithlu fferyllol, yn ôl Fframwaith Galluedd Digidol AaGIC.

**Statws**

Dichonoldeb

**Diweddariad:**

Dechreuwyd datblygu rhaglen o weithgareddau yn

Hydref 2023, gan fabwysiadu dull dau gam.

Bydd Cam 1 yn asesu ymgysylltiad presennol â'r fframwaith Gallu Digidol, a chanlyniadau cysylltiedig, gan Aelodau'r Tîm Fferylliaeth.

Bydd Cam 2, dros gyfnod o 12 mis, yn ceisio gwella ymgysylltiad, creu llwybrau a chyfeirio fferylliaeth benodol, a datblygu unrhyw anghenion hyfforddi cyflenwol o fewn rhaglenni hyfforddi AaGIC.

Disgwyliwn i ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid ddechrau ym mis Rhagfyr 2023.

**Thema 5**

**Cyf 19**
Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynigion ar gyfer cynnwys genomeg a chynhyrchion meddyginiaethol therapi uwch o fewn addysg a hyfforddiant y gweithlu fferyllol

**Statws**
Dichonoldeb

**Diweddariad:**
Byddwn yn cydweithio ag Arweinydd Clinigol - Ffarmacogenomeg a'r tîm Genomeg o fewn AaGIC, i gefnogi a chyfrannu at ddatblygu'r cynllun gweithlu Genomeg. Disgwyliwn i ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid o fewn y Gweithlu Fferylliaeth ddechrau ym mis Ionawr.

**Thema 1**

**Cyf 2**
Datblygu canllawiau cynllunio swyddi fferylliaeth a phecyn cymorth sy'n dod â'r cydbwysedd cywir o ran darparu gwasanaethau, eich datblygiad personol eich hun ac eraill, arweinyddiaeth, ymchwil ac arloesedd pan gaiff ei roi ar waith gan gyflogwyr.

**Thema 2**

**Cyf 9**
Er mwyn cefnogi gweithrediad cyson fframweithiau datblygu gyrfa ar draws holl feysydd gwasanaethau'r GIG, mae'r holl ddisgrifiadau swydd ar gyfer rolau fferyllol wedi'u mapio i sgiliau a chymwyseddau fframweithiau gyrfa fferylliaeth cenedlaethol cydnabyddedig (e.e., Cymdeithas Fferyllol Frenhinol)

**Thema 5**

**Cyf 20**
O 2026, bydd yr holl fferyllwyr cofrestredig newydd yng Nghymru yn cael eu cefnogi i ddilyn fframwaith lefel Sylfaen, Uwch ac Ymgynghorydd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol.

**Cyf 21**
Gwella mynediad at adnoddau canolog sy'n cefnogi fframweithiau datblygu gyrfa ar gyfer pob rôl yn y tîm fferylliaeth

**Statws**
Dichonoldeb

**Diweddariad:**
Mae asesiad ar y gweill i sefydlu dichonoldeb mynd i'r afael â phob un o'r 4 Cam Gweithredu ar yr un pryd, o dan yr un rhaglen o weithgarwch. Gobeithiwn fod mewn sefyllfa i rannu'r asesiad hwn erbyn diwedd Rhagfyr 2023.

## Thema 6

**Cyf 24**
Sefydlu llwybrau mynediad wedi'u teilwra ar gyfer pob grŵp staff fferyllol i ymgysylltu â'r adnoddau a'r adnoddau arwain tosturiol a chyfunol sydd ar gael ar Gwella

**Cyf 25**
Datblygu a darparu atebion arweinyddiaeth glinigol a phroffesiynol sy'n cyd-fynd â Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n adlewyrchu gofynion y gweithlu fferyllol

**Cyf 26**
Darparu a datblygu atebion arweinyddiaeth broffesiynol sy'n cyd-fynd â'r strategaeth arweinyddiaeth ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru ac sy'n adlewyrchu gofynion y gweithlu fferyllol

**Statws**
Dichonoldeb

**Diweddariad:**
Dechreuodd y gwaith o ddatblygu rhaglen o weithgarwch i gyfuno a mynd i'r afael â'r 3 cham gweithredu hyn ym mis Hydref 2023. Bydd y rhaglen yn cynnwys prosiectau sydd eisoes ar y gweill, wedi'u hategu gan weithgareddau ychwanegol a nodwyd yn ystod ein dadansoddiad o fylchau. Disgwyliwn i ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid ddechrau ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2023.



Rydym yn gwerthfawrogi ymdrechion ac ymrwymiad parhaus pob unigolyn a sefydliad sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n cyfrannu at wireddu'r Cynllun Gweithlu Fferylliaeth Strategol ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiadau o Wasanaethau Clinigol.

Mae eich cyfraniadau yn amhrisiadwy wrth lunio dyfodol Fferylliaeth yng Nghymru. Os ydych chi'n cymryd rhan weithredol mewn mentrau o'r fath a hoffech chi rannu gwybodaeth am y gwaith rydych chi'n ei wneud, rydyn ni'n croesawu'ch mewnwelediadau a'ch diweddariadau.

**Cysylltwch gyda ni dros e-bost:**
**heiw.pharmacyworkforce@wales.nhs.uk**

**Dilynwch ni:**

- heiw.nhs.wales
- facebook.com/AAGIC.GIG
- twitter.com/AaGIC_GIG
- linkedin.com/company/nhs-heiw